CYFRIFYDDIAETH

Ar ôl graddio mewn Cyfrifyddiaeth, fel arfer byddwch:

- Yn gallu gwerthuso dadleuon a thystiolaeth yn feirniadol.
- Yn gallu lleoli, tynnu a dadansoddi data o ffynonellau amryfal.
- Yn rheoli eich dysgu eich hun.
- Yn rhifog, gan gynnwys gallu trin data ariannol a data rhifiadol arall, a deall cysyniadau ystadegol.
- Yn effeithiol mewn TGCh gan gynnwys defnyddio taenlenni, meddalwedd prosesu geiriau a chronfeydd data ar-lein.
- Yn gallu cyflwyno gwybodaeth am faint ac ansawdd, ynghyd â dadansoddi, dadlau a chynnig sylwebaeth, ar ffurf sy'n briodol i'r gynulleidfa arfaethedig.
- Yn meddu ar sgiliau rhyngbersonol effeithiol, gan gynnwys y gallu i weithio mewn timau.
- Yn deall y cyd-destunau lle gweithredir cyfrifyddiaeth ynddynt, gan gynnwys yr amgylchedd cyfreithiol a chymdeithasol, y proffesiwn cyfrifyddiaeth, yr endid busnes, y marchnadoedd cyfalaf a'r sector cyhoeddus.
- Yn deall iaith ac arferion technegol cyfredol cyfrifyddiaeth (e.e. cydnabod, mesur a datgelu mewn datganiadau ariannol, cyfrifeg reolaethol, archwilio, trethiant) mewn maes penodedig.
- Yn deall rhywfaint o iaith ac arferion technegol eraill cyfrifyddiaeth (e.e. rheolau cydnabod a seiliau gwerthuso amgen, dilyn rheolau cyfrifeg mewn parthau economaidd-gymdeithasol eraill, dulliau cyfrifeg reolaethol amgen o reoli a phenderfynu).
- Yn fedrus wrth gofnodi a chrynhoi trafodion a digwyddiadau economaidd eraill, paratoi datganiadau ariannol, dadansoddi gweithrediadau busnes (e.e. dadansoddi penderfyniadau, mesur perfformiad a rheoli), dadansoddi ariannol a rhagamcanu (e.e. dadansoddi cymarebau ariannol, dadansoddi llif arian gostyngedig, cyllidebu, risgiau ariannol).

Cipolwg ar Gyfrifyddiaeth

Mae Cyfrifyddiaeth yn ymwneud â darparu a dadansoddi gwybodaeth ar gyfer prosesau sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau, atebolrwydd, rheoli, rheoleiddio a dyrannu adnoddau. Fe'i darperir, yn rhannol, o fewn cyd-destun gwasanaeth proffesiynol. Mae astudio cyfrifyddiaeth yn golygu ystyried agweddau cysyniadol a chymhwysol, gan gynnwys o leiaf rhai o'r ystyriaethau damcaniaethol sydd wrth wraidd y pwnc.

Sources:

Mae'n ofynnol i fyfyrwyr astudio sut mae cynllun, gweithrediad a dilysiad systemau cyfrifeg yn effeithio ar, ac yn cael eu heffeithio gan unigolion, sefydliadau, marchnadoedd a chymdeithas. Gall safbwyntiau o'r fath gynnwys elfennau ymddygiadol, economaidd, gwleidyddol a chymdeithasegol. Mewn geiriau eraill, mae 'cyllid' yn golygu'r un peth â 'chyfrifeg' yn aml, ond ym maes cyfrifeg ac economeg, cyfyngir cyllid i'r ddisgyblaeth neu'r astudiaeth o reoli cronfeydd.